## Cofnodion y cyfarfod diwethaf

**11 Ionawr 2017**

**Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

| Yn bresennol: | |
|---|---|
| | |
| **Bethan Jenkins AC (Cadeirydd)** | Gorllewin De Cymru / Plaid Cymru |
| **Dai Lloyd AC** | Gorllewin De Cymru / Plaid Cymru |
| | |
| **Lewis Cole (Ysgrifennydd)** | Gofal |
| **Siobhan Conway** | RCPsych yng Nghymru |
| **Gill Davies** | Gwasanaeth Allgymorth Anhwylderau Bwyta T4, y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| **Julie Davies** | Mental Health Matters Cymru |
| **Robin Glaze** | Arbenigwr Anhwylderau Bwyta, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Andy Hayes** | Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **Ewan Hilton** | Gofal |
| **Menna Jones** | Arweinydd Clinigol, Tîm Anhwylderau Bwyta T3, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Cwm Taf |
| **Llinos Kerens** | Rhiant |
| **Helen Missen** | Gofalwr |
| **Sophie Missen** | Defnyddiwr gwasanaeth |
| **Kim Palmer** | Gwasanaeth Allgymorth Anhwylderau Bwyta T4 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| **Don Ribeiro** | Gofalwr |
| **Janet Ribiero** | Gofalwr |
| **Naomi Swift** | Clinigydd Arweiniol T2 Bwrdd Iechyd Bro Taf |
| **Jacinta Tan** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe / Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg |
| **Manel Tippett** | RCPsych yng Nghymru |
| **Caroline Winstone** | Rhwydwaith CAMHS / Anhwylderau Bwyta Cymru |

| CPGED/NAW5/01 - Croeso ac ymddiheuriadau | Camau |
|---|---|

| | gweithredu |
|---|---|
| Croesawodd Bethan Jenkins bawb a oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta yng nghyfnod y Cynulliad hwn. Mae adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol y Grŵp hyd at, ac yn cynnwys, y cyfarfod diwethaf i'w gweld yma.<br><br>**CAFWYD:** Ymddiheuriadau gan yr aelodau absennol<br>• Martin Ball<br>• Jessica Chappell<br>• James Downs<br>• Emma-Jayne Hagerty<br>• Manon Lewis<br>• Michaela Moore<br>• Carolyn Sansom | |
| **CPGED/NAW5/02 - Sicrhawyd cyllideb ychwanegol ar gyfer y Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta** | **Camau gweithredu** |
| Rhoddodd **BJ y** wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp am yr arian ychwanegol a sicrhawyd yn y gyllideb, sy'n cynnwys £1 miliwn yn ychwanegol ar gyfer anhwylderau bwyta ac astudiaeth clinigau hunaniaeth rhywedd, a gofynnodd i'r Grŵp drafod beth fyddai'r ffordd orau o wario'r arian hwn o ran gwasanaethau anhwylderau bwyta. Roedd y pwyntiau a drafodwyd yn cynnwys:<br><br>• Yr angen am wario ar y trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau anhwylderau bwyta oedolion, er mwyn:<br>    ○ Gwella parhad<br>    ○ Rhoi gwell cyfle i wasanaethau weithio gyda'i gilydd<br>    ○ Osgoi'r oedi wrth drin cleifion sy'n agosáu at 18 mlwydd oed.<br><br>Roedd y Grŵp yn cydnabod bod 16-25 yn oed hanfodol wrth drin rhywun sydd ag anhwylder bwyta, a bod pob person ifanc yn wahanol, sy'n golygu y gallai gwahanol ddulliau o weithio y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion weithio'n well ar gyfer unigolion. Mae angen uno y model gofal, a phontio'r bwlch sy'n bodoli, o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn hytrach na rhyddhau pobl o'r gwasanaeth. | |

| | |
|---|---|
| Roedd y pwyntiau a wnaed yn amlygu un pwynt yn glir, nad yw'r gyllideb hon yn ddigonol ar gyfer darparu gwasanaeth newydd yn benodol ar gyfer pontio, ond byddai'n cael ei defnyddio i wella dulliau pontio ac integreiddio rhwng y ddau wasanaeth.<br><br>• Buddsoddi yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn ddigon cadarn drwy wneud yn siŵr bod yr hyn sydd ar waith yn ddiogel. Gallai gwelliannau o ran ymyrraeth gynnar arwain at fod llai o angen am wasanaethau pontio.<br><br>• Unwaith y byddwn yn gwybod yr union raniad o ran y £1 miliwn rhwng yr astudiaeth clinig hunaniaeth o ran rhywedd ac anhwylderau bwyta, bydd gennym well dealltwriaeth o'r hyn sy'n realistig. | |
| Diolchodd **BJ** i'r Grŵp am eu cyfraniad, a gofynnodd a allai'r drafodaeth barhau ar ffurf galwadau ffôn rhwng aelodau'r Grŵp o fewn yr wythnos nesaf, er mwyn dynodi'n bendant yr hyn yr ydym yn gofyn amdano, a'r union ddyraniad, er mwyn llunio llythyr at y Gweinidog dros Iechyd, yn eu hamlinellu. | **LC** ac **EH** i drefnu sgwrs ffôn rhwng yr aelodau yn nes ymlaen |
| **CPGED/NAW5/03 – Y wybodaeth ddiweddaraf am Adnewyddu y Fframwaith Anhwylderau Bwyta ar gyfer Cymru** | **Camau gweithredu** |
| Rhoddodd MJ **y** wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp ynghylch diweddaru'r fframwaith Anhwylderau Bwyta ar gyfer Cymru. Roedd data, canlyniadau i gleifion ac adolygiad llawnach o'r fframwaith yn rhai o'r canlyniadau allweddol yr oedd y gwaith o adnewyddu'r Fframwaith wedi'u nodi.<br><br>Trafododd y Grŵp y cam Adnewyddu, ac roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys, diffyg adolygu mewn modd cynhwysfawr a diffyg sylwedd newydd o fewn y fframwaith. Er bod yr Adnewyddiad wedi cydnabod bod angen adolygiad llawnach, awgrymodd y Grŵp, yn unol â chanllawiau newydd a gyhoeddwyd gan NICE eleni, y dylid llunio fframwaith newydd - sy'n golygu adolygiad a fydd yn fwy cynhyrchiol, o ystyried yr amser a gymerir i gynnal ymarfer Adnewyddu. | **Aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta** i gynnig ailysgrifennu'r fframwaith, yn y llythyr at y Gweinidog Iechyd ynghylch dyraniad y gyllideb |
| **CPGED/NAW5/04 - Gweithgareddau / cyfraniadau y Grŵp ar gyfer yr** | **Camau** |

| Wythnos Ymwybyddiaeth o Anhwylderau Bwyta 2017 | gweithredu |
|---|---|
| Gofynnodd **BJ** i'r Grŵp am syniadau a chyfraniadau ynghylch gweithgareddau y gallai'r grŵp eu trefnu ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth o Anhwylderau Bwyta 2017, a gofynnodd a fyddai modd iddynt siarad rhagor am hyn yn yr alwad ffôn sydd i'w threfnu ar ôl y cyfarfod hwn. | **Aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta i drafod** cyfraniadau i'r Wythnos Ymwybyddiaeth |
| **CPGED/NAW5/05 - Gofal iechyd sylfaenol a gofal iechyd eilaidd o ran ymchwil i anhwylderau bwyta** | |
| Rhoddodd **JT y** wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp am y prosiect ymchwil sy'n edrych ar sut beth yw croesi'r rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd, a bydd yn awyddus i recriwtio cyfranogwyr yn fuan. Bydd ap Anhwylderau Bwyta newydd hefyd ar gael gyda'r nod o ddarparu dull o roi gwybodaeth yn gynnar ac o sicrhau bod defnyddwyr yn gallu dysgu am anhwylderau bwyta a'u deall, a gwahoddodd **JT** aelodau'r Grŵp i dreialu'r ap ar ôl y cyfarfod, ac i lansio'r ap yn ffurfiol mewn cyfarfod diweddarach, a threialu hwn ar ôl y sesiwn. | **EH** i edrych ar y posibilrwydd o gynnal digwyddiad i lansio'r ap Anhwylderau Bwyta. |
| **CPGED/NAW5/06 - Unrhyw fater arall** | |
| Mae **BJ** wedi gofyn am gyfranogiad y Grŵp o ran prosiectau addysg ar Anhwylderau Bwyta, sy'n rhywbeth yr edrychwyd arno'n fyr o'r blaen. Nododd yr aelodau y rhaglenni a'r materion cyfredol, sy'n cynnwys:<br>• Prosiectau cyfredol sy'n cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) yn cyflwyno sesiynau anhwylderau bwyta mewn ysgolion<br>• Prosiect Ysgolion Mawr yn Sir Conwy a Sir Ddinbych<br>• Problemau cyfredol o ran sesiynau bwyta'n iach mewn ysgolion yn cael effaith niweidiol ar ddisgyblion | **EH** i edrych ar waith presennol y Grŵp o ran addysg anhwylderau bwyta |
| Diolchodd Bethan Jenkins i bawb am eu presenoldeb. | |

| | |
|---|---|